# Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | T Ll Hughes MBE (Cadeirydd)<br>R O Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>R Dew, R G Parry OBE FRgS, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, R Ll Jones, G O Jones, Richard Owain Jones, Eric Wyn Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Shaun James Redmond, J A Roberts, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Carwyn Jones, A M Jones, R.Meirion Jones, Dylan Rees a Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Cynrychiolwyr o Bwyllgor Cais Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn 2025**<br><br>Stephen Edwards, Gref Evans a Gwennol Hughes. |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd Mr R O Jones ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 4 – Cais Grant – Gemau'r Ynysoedd. Cymerodd ran yn y drafodaeth a'r bleidlais ar y mater wedi iddo gael cyngor cyfreithiol.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2018 fel rhai cywir.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y posibilrywdd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A (Categori 16) y Ddeddf."**

**4 CAIS AM GRANT - GEMAU'R YNYSOEDD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â chais a gafwyd am gymorth ariannol i gynnal Gemau'r Ynysoedd yn Ynys Môn yn 2025.

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Bwyllgor Cais Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn 2025 ac fe gafodd yr Ymddiriedolaeth Elusennol gyflwyniad manwyl ganddynt. Yn dilyn sesiwn holi ac ateb, gadawodd y cynrychiolwyr y cyfarfod cyn i'r cais gael ei drafod.

Anerchwyd y cyfarfod gan yr Ysgrifennydd, y Trysorydd a'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol ac yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD :-**

- **Bod yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn cefnogi'r cais, mewn egwyddor, a'i bod yn gosod amodau i sicrhau gwariant elusennol priodol;**
- **Bod angen Cynllun Busnes llawn sy'n nodi'n glir i ba ddibenion y bydd arian yr elusen yn cael eu gwario a bod unrhyw drefniadau ar gyfer rhyddhau arian yn amodol ar dderbyn prawf bod meini prawf y flwyddyn flaenorol wedi'u bodloni o dan y Cynllun Busnes os yn berthnasol;**
- **Rhoi pŵer dirprwyedig i'r Ysgrifennydd (mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol, y Trysorydd ac unrhyw Swyddogion eraill fel y gwêl yr Ysgrifennydd yn briodol) i osod unrhyw amodau ar unrhyw grant neu ymrwymiad er mwyn diogelu priodoldeb gwario arian elusennol;**
- **Bod yr amodau a osodir yn cynnwys amod bod raid adrodd ar y mater eto i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn cyn rhyddhau unrhyw arian o'r fath.**

**Trefor Ll Hughes MBE**
**Cadeirydd**